# Gwasanaethau Cymorth mewn Profedigaeth Sands

**Mae Sands yma i achub bywydau babanod a chefnogi unrhyw rai y mae colli beichiogrwydd neu farwolaeth babi wedi effeithio arnynt.** Mae ein Gwasanaethau Cymorth mewn Profedigaeth yn cynnig mannau diogel i chi alaru a dod o hyd i gymorth, p'un a ydych yn rhiant, yn frawd neu'n chwaer, yn nain neu'n daid, yn un o weithwyr proffesiynol y GIG neu'n ffrind. Mae ein tîm yn cynnwys Swyddogion Gwasanaethau Cymorth mewn Profedigaeth, cwnselwyr ac aelodau cymwysedig eraill o staff. Dyma ychydig yn unig o'r hyn rydym yn ei wneud:

## Rydym yn cynnig gwasanaethau gwrando:

- Llinell Gymorth am Ddim 0808 164 3332
- E-bost helpline@sands.org.uk
- Gwasanaeth sgwrs gymorth Sands drwy ein gwefan sands.org.uk

## Rydym yn helpu pobl y mae colli beichiogrwydd neu farwolaeth babi wedi effeithio arnynt i gefnogi ei gilydd drwy'r dulliau canlynol:

- Cymuned ar-lein Sands, sy'n cynnig cefnogaeth gan gymheiriaid 24 awr y dydd, wedi'i gymedroli gan staff
- Grwpiau cymorth ar Facebook, gan gynnwys grŵp i ddynion
- Cyfarfodydd grwpiau cymorth ar-lein a gynhelir gan staff Cymorth mewn Profedigaeth

## Rydym yn helpu cannoedd o wirfoddolwyr ledled y DU i gynnal:

- Grwpiau cymorth lleol wyneb yn wyneb ac ar-lein
- Cymorth seiliedig ar weithgareddau gan gynnwys cerdded a sgwrsio, corau, a thimau pêl-droed Sands United

Sands

## Rydym yn creu ac yn darparu adnoddau am ddim ar gyfer creu atgofion a thyfu drwy alar, a hynny i ysbytai a hefyd yn uniongyrchol i bobl sydd wedi colli beichiogrwydd neu wedi colli babi:

- Blychau cof, sy'n cynnig lle i deuluoedd greu eu hatgofion eu hunain drwy gydol eu taith galar
- Tystysgrifau geni sydd wedi'u dylunio mewn modd sensitif
- Llyfr Cymorth mewn Profedigaeth, sydd ar gael ar ffurf copi caled neu ffeil i'w lawrlwytho, ac fel un llyfr neu lyfrynnau unigol, gyda gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau gan gynnwys heriau corfforol ac emosiynol, trefnu angladd, a dychwelyd i'r gwaith
- Gweithgareddau wedi'u hargraffu a rhai y gellir eu lawrlwytho ar gyfer plant a phobl ifanc
- Canllawiau ar gyfer pobl a gafodd brofedigaeth amser maith yn ôl, gan gynnwys unrhyw rai sydd am olrhain bedd babi
- Gwybodaeth i bobl sy'n mynd drwy broses adolygiad neu ymchwiliad

***Mae rhai o'n grwpiau a'n hadnoddau yn agored i unrhyw rai y mae colli beichiogrwydd neu farwolaeth babi wedi effeithio arnynt. Mae eraill wedi'u bwriadu ar gyfer cymunedau neu berthnasau penodol, megis partneriaid. Diben hyn yw sicrhau bod lle diogel ar gael i bawb lle y gallant deimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u bod yn werthfawr ac yn gyfartal. Mae ein holl adnoddau ar gael mewn ieithoedd gwahanol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yma: sands.org.uk/support***

Sands

Saving babies' lives.
Supporting bereaved families.

©Sands 2022. Registered as a charity in England and Wales (299679) and in Scotland (SC042789).
A company limited by guarantee registered in England and Wales number 2212082.